# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5 (Hybrid)**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mehefin 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod: 13:50 - 14:00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14:00)

## 2 Papurau i'w nodi

(14:00)

**2.1 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar Brofiadau Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol**

(Tudalennau 1 - 4)

**2.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Mudo Anghyfreithlon**

(Tudalennau 5 - 6)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Blaenraglen waith

(14:00 - 15:15) (Tudalennau 7 - 37)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Mai 2023

Annwyl Jenny

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch gohebiaeth ddyddiedig 28 Ebrill yn gofyn am eglurder ar nifer o faterion a nodwyd yn fy ymateb i'ch adroddiad terfynol.

Rwy'n ddiolchgar o hyd am y dull gweithredu dyfal ac ymroddedig rydych yn ei ddefnyddio yn ystod yr ymchwiliad hwn, gan gydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod menywod o Gymru sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gan ddiolch i'm partneriaid ym maes cyfiawnder am eu cyfraniadau, rwyf wedi darparu ymatebion i'r ymholiadau hyn isod.

**Argymhelliad 11:** Mae eich ymateb yn nodi y bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yn bwrw ymlaen ag argymhellion yn sgil y peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu diweddar. A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am ganlyniad y cynllun peilot hwnnw.

**Ymateb:** Daeth y cynllun peilot Adroddiadau Cyn Dedfrydu i ben ym mis Mawrth 2023. Bwriedir cyhoeddi Gwerthusiad Proses ffurfiol o'r cynllun peilot erbyn diwedd mis Mai 2023.

Ar ddiwedd y cyfnod gweithredol, mae'r ddau leoliad lle cynhaliwyd y cynllun peilot yng Nghymru wedi parhau i ddatblygu'r prosesau gwell a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf, megis nodi'n gynnar yr achosion a fyddai'n elwa ar Adroddiad Cyn Dedfrydu yn unol â'r strategaeth weithredol genedlaethol ar gyfer llysoedd.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canlyniadau yn ffurfiol ar ôl i'r adroddiad gael ei rannu â mi.

**Argymhelliad 12:** Rydym yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i sicrhau bod gwybodaeth am sut i gysylltu ag Aelodau etholedig yng Nghymru ar gael i fenywod o Gymru. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion am sut, a pha wybodaeth fydd ar gael i garcharorion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb:** Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wrthi'n ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Yn anffodus, nid oedd y Gwasanaeth yn gallu darparu ymateb mewn pryd imi ei gynnwys yn y llythyr hwn, ond mae hwn yn faes lle rydym yn parhau i bwysleisio pa mor bwysig yw gweithredu'n gyflym er mwyn sicrhau bod menywod o Gymru yn gallu cysylltu â'u Haelod o'r Senedd, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. Byddaf yn rhannu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo ar gael imi.

**Argymhelliad 15:** A fyddech cystal â darparu gwybodaeth ychwanegol am Fframwaith Adsefydlu Cymru. A allech hefyd egluro pwy sy'n gyfrifol am ariannu triniaeth ddadwenwyno i fenywod o Gymru sydd mewn carchar yn Lloegr.

**Ymateb:** Mae ein Fframwaith Haen 4, Rehab Cymru, a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2020, yn cynnig rhestr wedi'i chymeradwyo o ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu preswyl. Mae modd hefyd weld y mathau o driniaeth, rhestr o brisiau, lleoliadau ac adolygiadau arolygu er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol i wneud dewis. Ar ôl i ddefnyddiwr y gwasanaeth a'r gweithiwr allweddol ddewis lleoliad, caiff y ffurflen atgyfeirio ar-lein ar Rehab Cymru ei chwblhau ac eir ati i drefnu'r lleoliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Rehab Cymru: Rehab Cymru

O ran ariannu gwasanaethau dadwenwyno i fenywod o Gymru sydd yn y carchar yn Lloegr, cyfrifoldeb NHS England yw unrhyw driniaeth a roddir mewn carchardai yn Lloegr. Pan gaiff menywod eu rhyddhau, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 am asesu a oes gan oedolyn angen a nodwyd am wasanaethau adsefydlu preswyl ar gyfer camddefnyddio sylweddau fel rhan o drefniadau gofal a chymorth lleol.

Mae'r rheoliadau ar bwy sy'n gymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio'n benodol at yr angen sy'n deillio o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau. Gall gwasanaethau adsefydlu preswyl a dadwenwyno i gleifion mewnol chwarae rôl bwysig o ran helpu defnyddwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i sicrhau adferiad hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau o'r fath ar gael. Wrth wneud hynny, rydym yn clustnodi cyllid blynyddol gwerth £2m o'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn benodol i Fyrddau Cynllunio Ardal ar gyfer darparu gwasanaethau Haen 4. Nod y cyllid hwn yw cefnogi cyllid awdurdodau lleol, ac ychwanegu ato, fel rhan o'u dyletswyddau i gynnal asesiadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

28 Ebrill 2023

Annwyl Jane

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a nodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2023.

Codwyd nifer o gwestiynau yn ystod ein hystyriaeth o'ch ymateb, a nodir y rhain isod.

Argymhelliad 11: Mae eich ymateb yn nodi y bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yn bwrw ymlaen ag argymhellion yn sgil y peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu diweddar. A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am ganlyniad y cynllun peilot hwnnw.

Argymhelliad 12: Rydym yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i sicrhau bod gwybodaeth am sut i gysylltu ag Aelodau etholedig yng Nghymru ar gael i fenywod o Gymru. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion am sut, a pha wybodaeth fydd ar gael i garcharorion.

Argymhelliad 15: A fyddech cystal â darparu gwybodaeth ychwanegol am Fframwaith Adsefydlu Cymru. A allech hefyd egluro pwy sy'n gyfrifol am ariannu triniaeth ddadwenwyno i fenywod o Gymru sydd mewn carchar yn Lloegr.

Mae dadl wedi'i threfnu ar gyfer 24 Mai, felly byddem yn croesawu cael ymateb cyn y dyddiad hwnnw os yn bosibl. Gyda diolch am eich ymgysylltiad parhaus â ni ar y mater hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

18 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes, ar 25 Ebrill, wedi cytuno i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon (y "Memorandwm"), gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mehefin. Yn dilyn hynny, cyfeiriwyd y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Cafodd y Memorandwm ei ystyried gennym yn ein cyfarfod ar 11 Mai. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 19 ac 20 gan eu bod yn ymwneud â mater datganoledig gofal cymdeithasol, nad yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Gallai'r cymalau hyn osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Os caiff ei basio, byddai'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref ddarparu neu drefnu ar gyfer darparu llety i blant ar eu pen eu hunain sy’n bodloni amodau penodol o dan y Bil, ac i drosglwyddo’r plant hynny o lety'r Swyddfa Gartref i ofal awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Mae Cymal 19 yn galluogi ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru heb fod angen cydsyniad y Senedd.

Trafodwyd a ddylid adrodd ar y Memorandwm a phenderfynwyd yn erbyn gwneud hynny, yn bennaf oherwydd bod darpariaethau'r Bil y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor. Er bod y Bil yn galluogi ymestyn darpariaethau i Gymru a thrwy hynny, gallent osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byddai'n afresymol i'r Pwyllgor ystyried pob Bil yn y DU neu'r Senedd sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol Cymru, neu'n trosglwyddo pwerau iddynt.

Yn ogystal, yn ystod ein trafodaethau, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sydd hefyd yn aelod o'n Pwyllgor, ei bod yn debygol iawn y byddai ei phwyllgor hi yn ymgymryd â



Senedd Cymru
Welsh Parliament

gwaith ar y Memorandwm. Rydym hefyd yn deall y bydd yn cael ei ystyried gan ddau bwyllgor arall: y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ar y sail honno, ac am y rhesymau eraill a amlinellir uchod, rydym wedi penderfynu peidio ag adrodd ar y Memorandwm hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau eraill y cyfeiriwyd at y Memorandwm atynt er gwybodaeth.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon